OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 170 (Cy.29)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu) (Diwygio) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *20 Ionawr 2012* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *26 Ionawr 2012* |

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 6 a 42(6) a (7) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**1**), a pharagraff 1(1) a (4) o Atodlen 2 iddi, ac sydd bellach wedi eu breinio ynddynt hwy(**2**), ac ar ôl ymgynghori â Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn unol ag adran 42(9) o'r Ddeddf honno:

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu) (Diwygio) 2012.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar y diwrnod y daw adran 8 o Ddeddf Addysg 2011(**3**) i rym.

### Diwygio Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu) 2001

**2.**—(1) Diwygir Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu) 2001(**4**) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1)—

(a) hepgorer y geiriau "neu Loegr" yn y diffiniad o "gorchymyn disgyblu".

(b) mewnosoder, yn y man priodol yn ôl trefn yr wyddor, y diffiniad a ganlyn—

(**1**) 1998 p. 30. Mae'r darpariaethau perthnasol yn gymwys o ran Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn rhinwedd adrannau 8 a 9 o'r Ddeddf a Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru 1998 (O.S. 1998/2911). Cafodd paragraff 1(4) o Atodlen 2 ei ddiwygio gan baragraff 86(2) o Atodlen 21 i Ddeddf Addysg 2002 (p. 32) a'i ddiwygio ymhellach gan baragraffau 2 a 7 o Atodlen 9 i Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (p. 47). Am ystyr "prescribed" a "regulations" *gweler* adran 43(1).

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(**3**) 2011 p. 21.

(**4**) O.S. 2001/1424 (Cy. 99) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2003/503 (Cy. 71), O.S. 2003/542 (Cy. 76), adran 81(5) o Ddeddf Plismona a Throsedd 2009 (2009 p. 26), O.S. 2009/1354 (Cy. 130), O.S. 2009/2161 (Cy. 184) ac O.S. 2010/1142 (Cy. 101).

"ystyr "gorchymyn gwahardd" ("*prohibition order*") mewn perthynas ag athro neu athrawes yn Lloegr yw gorchymyn gwahardd sydd wedi'i wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 141B o Ddeddf Addysg 2002(**5**);".

(c) hepgorer y geiriau "neu Loegr" yn y diffiniad o "achos disgyblu".

(ch) rhodder y canlynol yn lle'r diffiniad o "tramgwydd perthnasol"—

"mae i "tramgwydd perthnasol", o ran Cymru, yr un ystyr ag sydd i "*relevant offence*" yn Atodlen 2 i Ddeddf 1998, ac o ran Lloegr mae iddo'r un ystyr ag sydd i "*relevant offence*" yn adran 141B(4) o Ddeddf Addysg 2002;".

(3) Yn rheoliad 9(1)(b) hepgorer y geiriau "neu'r Ysgrifennydd Gwladol" ar yr achlysur cyntaf y maent yn ymddangos, ac ychwaneger y canlynol ar ôl y geiriau "o dan adran 142 o Ddeddf Addysg 2002"—

"neu fod yr Ysgrifennydd Gwladol yn dymuno ystyried yr achos gyda'r bwriad o arfer pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 141B o Ddeddf Addysg 2002".

(4) Rhodder y canlynol yn lle rheoliad 25—

"**Gorchmynion gwahardd**

**25** Bydd gorchymyn gwahardd yn gymwys o ran Cymru fel y mae'n gymwys o ran Lloegr.".

*Leighton Andrews*
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

20 Ionawr 2012

(**5**) 2002 p. 32.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu) 2001 (“Rheoliadau 2001”) yn darparu ynglŷn â swyddogaethau disgyblu Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (“y Cyngor”). Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2001 o ganlyniad i Ddeddf Addysg 2011, sy'n darparu ar gyfer diddymu Cyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr (“y CACLl”) ac yn gwneud darpariaethau newydd o ran gwahardd personau rhag cyflawni gwaith addysgu.

Mae rheoliad 2(2) o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r ddarpariaeth o ddiffiniadau yn Rheoliadau 2001 er mwyn cymryd i ystyriaeth ddiddymiad CACLl a'r darpariaethau newydd a fewnosodwyd yn Neddf Addysg 2002 (“Deddf 2002”) sy'n darparu bod gan yr Ysgrifennydd Gwladol y pŵer i wneud gorchymyn gwahardd sy'n gwahardd person rhag cyflawni gwaith addysgu.

Mae rheoliad 2(3) o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 9(1)(b) o Reoliadau 2001. Mae'r diwygiad yn ychwanegu darpariaeth yn ôl yr hon nid oes gan Bwyllgor Ymchwilio o'r Cyngor, fel y'i sefydlwyd o dan reoliad 3(1) o Reoliadau 2001, unrhyw swyddogaethau o ran ymchwilio i athro neu athrawes gofrestredig, o dan amgylchiadau lle mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn dymuno ystyried yr achos gyda golwg ar arfer pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 141B o Ddeddf 2002.

Mae rheoliad 2(4) o'r Rheoliadau hyn yn rhoi darpariaeth newydd yn lle rheoliad 25 o Reoliadau 2001, sy'n darparu y bydd gorchymyn gwahardd sydd wedi'i wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 141B o Ddeddf 2002 yn gymwys o ran Cymru fel y mae'n gymwys o ran Lloegr. Yr oedd y geiriad blaenorol sydd wedi ei ddiddymu yn rheoliad 25 yn gwneud darpariaeth gyffelyb o ran gorchymyn disgyblu a oedd wedi'i wneud gan CACLl.